

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 4 HYDREF 2019

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Jacobsen a/ac Sattar

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

12 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - TACO BELL, HEOL EGLWYS FAIR

Ymgeiswyr: Harvey Brown wedi'i gynrychioli gan John Wilton

Awdurdodau Cyfrifol: Tony Bowley, Heddlu De Cymru
John, Heddlu De Cymru
Rhys Morgan, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

Y Cais

Mae cais am Drwydded Safle wedi'i ddebryn gan Campana Ltd mewn perthynas â Taco Bell, 92 Heol Eglwys Fair, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

- (i) Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (dan do ac awyr agored)
- (ii) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

“Bwyty/ciniawa hamdden a thecawê.”

(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

Dydd Llun i Ddydd Sul 07:00 i 03:00

(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

- a) Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (dan do ac awyr agored):
Dydd Llun i Ddydd Sul 23:00 i 03:00
- b) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
Dydd Llun i Ddydd Sul 10:00 i 00:00

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Siaradodd Tony Bowley â'r Is-bwyllgor. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cais sy'n gysylltiedig ag eiddo ar Heol Eglwys Fair o fewn y parth effaith gronnol. Yn y gorffennol roedd y safle'n cael ei weithredu gan y siop tecawê Wok to Walk nad oedd â thrwydded. Nid oedd unrhyw hanes o drosedd, anhrefn neu niwsans cyhoeddus yn gysylltiedig â'r siop hon.

Roedd yr ymgeiswyr yn ceisio cynnig gwerthu alcohol tan ganol nos a lluniaeth gyda'r hwyrnos o 2300 i 0300. Nododd Mr Bowley fod yr ymgeiswyr wedi cytuno i dderbyn nifer o amodau pe bai'r Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r cais.

Dywedodd Mr Bowley fod Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu'r cais dan Bolisi Effaith Gronnol y Cyngor ac Amodau Trwyddedu atal trosedd ac anhrefn, atal niwsans cyhoeddus a diogel plant rhag niwed. Roedd gormod o safleoedd â thrwyddedau yng nghanol y ddinas ac mae Heddlu De Cymru yn credu y byddai safle arall â thrwydded yn effeithio'n negyddol ar drosedd ac anhrefn. Dywewyd bod yr alcohol a lluniaeth gyda'r hwyrnos oedd ar gael yn cyfrannu at broblemmau gyda throsedd ac anhrefn.

Croesawodd Heddlu De Cymru y ffaith bod eu holl amodau wedi'u derbyn gan yr ymgeiswyr, yn nodedig yr amodau sy'n gofyn bod alcohol yn cael ei werthu gyda pryd wrth fwrdd. Dylai hyn helpu i leihau unrhyw broblemau. Fodd bynnag, roedd dal angen i'r ymgeiswyr ddangos na fyddai unrhyw effaith negyddol ar yr amodau trwyddedu.

Gan ymateb i gwestiynau gan gynrycholydd yr ymgeiswyr, dywedodd Mr Bowley ei bod yn anodd dweud na fyddai'r safle yn cael unrhyw broblemau trosedd ac anhrefn, o ystyried ei oriau gweithredu. Croesawyd yr amod yn gwneud staff drws ADD cymeradwy yn ofynnol a gwnaeth hynny rhoi rhywfaint o sicrwydd i Heddlu De Cymru, ond awgrymwyd hefyd fod yr ymgeiswyr yn ymwybodol y bydd problemau.

Siaradodd Rhys Morgan â'r Is-bwyllgor. Dywedodd yr Aelodau fod adrannau 7.5 a phennod 8 Datganiad Polisi Trwyddedu'r awdurdod yn berthnasol i'r cais hwn. Roedd rhagdybiaeth wrthbrofadwy y gwrthodir pob cais newydd oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu dangos na fyddai unrhyw effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu. Barn yr Awdurdod Trwyddedu oedd y byddai rhoi'r drwydded safle'n cael effaith negyddol.

Roedd y safle yn cynnig gwasanaeth tecawê gydag elfen o giniawa hamdden ac felly roedd yn rhan o'r categori 'coch' yn Nhabl 1 Pennod 8 y Polisi. Roedd yr atodlen weithredu o bwys. Fodd bynnag, byddai dal angen i ymgeiswyr ddangos bod y safle hwn yn eithriadol er mwyn diystyru'r rhagdybiaeth wrthbrofadwy. Mae rheoli safle'n dda yn ofyniad gofynnol.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Siaradodd Harvey Brown â'r Is-bwyllgor. Rhoddwyd i'r Aelodau fanylion am fodel busnes yr ymgeisydd. Roedd y safle yn cynnig ciniawa hamdden ar thema Mecsicanaidd - tacos a burritos - sy'n gyfateb i frechdan. Roedd y busnes yn cael ei arwain gan fwyd ac roedd am gynnig rhywbeth sy'n wahanol i'w gystadleuwyr.

Byddai 70 pryd o fwyd yn y lleoliad hwn gyda dewisiadau tecawe a danfon hefyd. Byddai cwrw'n bennaf yn cael ei gynnig.

Siaradodd John Wilton â'r Is-bwyllgor. Dywedodd Mr Wilton ei fod yn byw yn Brighton lle anogir sefydliadau bwyd gan eu bod yn lleihau nifer y bobl sydd ar y stryd gyda'r hwyrnos. Roedd y brand yn boblogaidd gyda myfyrwyr a dyma fyddai'r siop gyntaf y brand hwn yng Nghymru.

Awgrymodd Mr Wilton y byddai'r safle yn cael effaith gadarnhaol ar yr amcan trwydded trosedd ac anhrefn. Byddai hefyd aelod o staff drws ADD cymeradwy ychwanegol. Ni chaniateir mynediad i'r safle ar ôl 0255.

Crynhoi

Gofynnodd Tony Bowley i'r Is-bwyllgor ystyried ychwanegu amodau ychwanegol yn gofyn bod yr ymgeiswyr yn defnyddio rhwydwaith radio, rhoi camera corff TCC i staff drws a pheidio â chynnig hyrwyddiadau ar ddiodydd.

Dywedodd Rhys Morgan fod y safle yn yr Ardal Effaith Gronnol a'i fod yn y categori coch yn y Datganiad Polisi Trwyddedu. Gofynnodd i'r Aelodau ystyried a yw'r amodau a gynigiwyd yn ddigon i ddiystyru rhagdybiaeth wrthbrofadwy bod ceisiadau am drwyddedau newydd yn cael eu gwrthod.

Dywedodd Mr Wilton, ar ddyddiau digwyddiadau mawr, y byddai'r ymgeiswyr yn darparu dau aelod o staff drws ADD cymeradwy. Derbyniwyd pob amod Heddlu De Cymru arall.

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr Is-bwyllgor yn CYMERADWYO'r cais, yn amodol ar amodau'r heddlu fel y'u nodir yn Atodiad C yr adroddiad a bod o leiaf 2 aelod o staff drws ADD yn cael eu cyflogi ar ddyddiau digwyddiadau mawr gan Heddlu De Cymru.

13 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm